**Dinas a Sir Abertawe**

**Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor**

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 5 Hydref 2023 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd S Pritchard (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | J A Hale | P Lloyd |
| M Baker | T J Hennegan | M W Locke |
| S Bennett | V A Holland | P M Matthews |
| P N Bentu | C A Holley | P N May |
| P M Black | P R Hood-Williams | J D McGettrick |
| J P Curtice | B Hopkins | A J O'Connor |
| A Davis | D H Hopkins | D Phillips |
| A M Day | L James | J E Pritchard |
| P Downing | Y V Jardine | A Anthony |
| C R Doyle | A J Jeffery | S J Rice |
| M Durke | D H Jenkins | K M Roberts |
| C R Evans | L R Jones | B J Rowlands |
| C M J Evans | M Jones | R V Smith |
| V M Evans | S M Jones | A H Stevens |
| E W Fitzgerald | S Joy | R C Stewart |
| R Fogarty | S E Keeton | M S Tribe |
| R Francis-Davies | E J King | G D Walker |
| N Furlong | E T Kirchner | L V Walton |
| L S Gibbard | H Lawson | T M White |
| F M Gordon | A S Lewis | R A Williams |
| K M Griffiths | M B Lewis | |
| H J Gwilliam | W G Lewis | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): M Bailey, M H Jones, J W Jones, N L Matthews, F D O'Brien, C L Philpott, L G Thomas a/ac W G Thomas

## 44. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib a all fod gan gynghorwyr a/neu swyddogion ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd M Durke gysylltiad personol â Chofnod 50 “Adroddiad Blynyddol 50/2022 - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol”.

## 45. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar ychwanegu enw'r Cynghorydd B Hopkins at y rhestr o'r rheini a oedd yn bresennol:

1) Cyfarfod cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 7 Medi 2023.

## 46. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 47. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

**a) Gwasanaethau Adeiladu a Thimau Tai - Enillwyr Gwobr APSE (Cymdeithas Rhagoriaeth Gwasanaethau Cyhoeddus)**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Gwasanaethau Adeiladu a Gwasanaeth Timau Tai'r cyngor wedi ennill Gwobr APSE ar y cyd ar gyfer y Tîm Gwasanaethau Gorau yn y categori Gwasanaethau Tai, Adeiladu ac Adeiladau. Llongyfarchodd bawb a fu'n rhan o hyn.

**b) Tîm Heneiddio'n Dda - ar restr fer Gwobr APSE (Cymdeithas Rhagoriaeth Gwasanaethau Cyhoeddus)**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Tîm Heneiddio'n Dda y Cyngor ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr APSE yn y categori menter Iechyd a Lles orau. Mae hyn ar gyfer eu tro wythnosol er lles, mewn partneriaeth ag Action for Elders, a gychwynnwyd yn dilyn cyfnod clo COVID. Er nad oedd wedi ennill y wobr, roedd cyrraedd y rhestr fer o dros 300 o gyflwyniadau yn gyflawniad eithriadol. Llongyfarchodd y tîm a diolchodd iddynt am eu hymroddiad a'u hymrwymiad

tuag at gefnogi ein poblogaeth hŷn. Maent yn cael effaith sylweddol ar fywydau llawer o'n preswylwyr o bob rhan o'r ddinas ac yn eu cefnogi i fyw'n dda a heneiddio'n dda.

**c) Gwasanaeth Ieuenctid Evolve - ar restr fer ar gyfer Gwobr Diogelwch Cymunedol**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Gwasanaeth Ieuenctid Evolve y cyngor wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobr Diogelwch Cymunedol am waith rhagorol. Mae'n gyflawniad gwych i fod ar y rhestr fer ac i gydnabod yr effaith y mae Gweithwyr Allgymorth Ieuenctid yn ei chael gyda'n pobl ifanc yn ein cymunedau ar draws y ddinas. Cynhelir y seremoni wobrwyo ar 17 Hydref 2023, ac ar ran y cyngor, dymunodd bob lwc iddynt.

**d) Pont Bae Copr – Gwobrau Dylunio Dur Adeiladu 2023 2023**

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol yr holl staff a oedd yn gysylltiedig â phont eiconig Bae Copr sydd bellach yn croesi Oystermouth Road, gan gysylltu canol y ddinas â'r arena a'r parc arfordirol. Yng Ngwobrau Dylunio Dur Adeiladu 2023 yn ddiweddar, enillodd penseiri'r cyngor, ACME, wobr am eu safon ddylunio ragorol y bont.

**e) Arolwg i Breswylwyr**

Dywedodd yr Aelod Llywydd fod y cyngor wedi lansio Arolwg i Breswylwyr yn ddiweddar yn gofyn beth yw eu barn am wasanaethau a staff y cyngor. Gobeithir y bydd yr adborth yn helpu i wella eto yr hyn y mae'r cyngor yn ei wneud drwy ymateb i farn preswylwyr. Mae hefyd yn gyfle iddynt ddweud pa wasanaethau y byddent yn eu blaenoriaethu a'u rhoi mewn trefn blaenoriaeth, a bydd hyn yn bwydo i mewn i'n trafodaethau cyllidebol yn ystod y misoedd nesaf. Mae'r arolwg i'w gael yn www.abertawe.gov.uk/arolwgpreswylwyr

**f) Adolygiad Cymunedol Abertawe**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn cynnal adolygiad o ffiniau cymunedau Abertawe. Agorodd y Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol ar 25 Medi 2023 ac mae'n cau ar 19 Tachwedd 2023. Mae rhagor o wybodaeth am yr adolygiad ar gael yn www.cffdl.llyw.cymru/arolygon/09-23/swansea-community-review

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i consultations@boundaries.cymru neu Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, Hastings House, Fitzalan Place, Caerdydd CF24 0BL.

## 48. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaeth Arweinydd y Cyngor unrhyw gyhoeddiadau.

## 49. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Gofynnodd David Davies gwestiwn mewn perthynas â Chofnod 52 "Cynnydd Ymrwymiadau Polisi".

i) *"A fyddai cystadleuaeth ledled Abertawe yn briodol lle gallai pob ysgol enwebu ei Darllenydd y Flwyddyn, bachgen a merch; byddent yn ymddangos gerbron Panel a drefnwyd gan y cyngor a fyddai'n beirniadu'r enillwyr ac yn cyflwyno Cwpan iddynt hwy a'r ysgol. Efallai y gallai ein Gweinidog Addysg ddewis llyfr penodol ar gyfer y cystadleuwyr ac yna asesu eu gwerthusiad beirniadol ohono a'u dychymyg.*

*Cymru yw gwlad y beirdd a gallai'r gystadleuaeth hon ysbrydoli darpar awduron y dyfodol. Mae gan Gaerdydd ei Chanwr y Byd, gadewch i Abertawe gael ei Darllenwyr y Flwyddyn."*

Croesawodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu yr awgrym a dywedodd y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**50. Adroddiad Blynyddol 2022/23 - Prif Swyddog Y Gwasanaethau Cymdeithasol.**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol adroddiad a oedd yn darparu ei gyfrif ef o daith wella'r cyngor i 2022-2023, a pha mor dda y mae'r cyngor yn bodloni ei ofynion statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Roedd yr adroddiad yn adolygu meysydd ar gyfer gwella’r llynedd a'r heriau a wynebwyd ac roedd yn gosod blaenoriaethau newydd. Roedd yr adroddiad yn nodi'r newidiadau sydd wedi digwydd o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflawni cynnydd tuag at ganlyniadau lles cenedlaethol.

**Penderfynwyd:**

1) Derbyn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/2023.

**Sylwer:** Gofynnodd y Cynghorydd C A Holley gwestiwn yn ymwneud â'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAHMS). Gofynnodd "Beth yw'r amserlen ar gyfer ymweliad ar ôl atgyfeirio?"

Nododd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y darperir ymateb ysgrifenedig.

**51. Adroddiad Blynyddol Craffu 2022-23.**

Cyflwynodd Gadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu adroddiad gwybodaeth a oedd yn amlinellu gwaith craffu ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022-2023.

**52. Cynnydd Ymrwymiadau Polisi.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad gwybodaeth a oedd yn crynhoi cynnydd yr Ymrwymiadau Polisi a fabwysiadwyd gan y cyngor ym mis Gorffennaf 2022.

**Sylwer:**

1) Gofynnodd y Cynghorydd P M Black, "Beth yw amserlen cyflwyno Wi-Fi Am Ddim i'r Cyhoedd ac i ba raddau y gwneir hyn?

Dywedodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

2) Gofynnodd y Cynghorydd P N May, "Faint o bwyntiau gwefru cerbydau trydan oedd ar gael cyn i'r targed gael ei osod? Beth yw'r targed rhifiadol nawr?"

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y darperir ymateb ysgrifenedig.

## 53. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

### 1) ‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A’

Cyflwynwyd tri (3) 'Chwestiwn Atodol' Rhan A.

Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Dangosir y cwestiynau atodol hynny yr oedd angen ymateb ysgrifenedig arnynt isod.

**Cwestiwn 2**
Gofynnodd y Cynghorydd P N May, "A ellir dosbarthu copi o'r canllawiau ar gyfer strwythurau presennol?"

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

### 2) Rhan B ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'

Cyflwynwyd chwe (6) 'chwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' ar eu cyfer Rhan B.

## 54. Hysbysiad o Gynnig - Coetir Coffa.

Cyflwynwyd yr Hysbysiad o Gynnig gwreiddiol a amlinellwyd isod gan y Cynghorydd C M J Evans, M W Locke / S Bennett.

*"Rydym yn galw am adroddiad i'r cyngor a all amlinellu sut y gellir darparu a chynnal coetir coffa, i nodi can mlynedd ers codi'r senotaff a'r aberth a wnaed gan ein lluoedd arfog wrth wasanaethu ein gwlad. Byddai coeden yn cael ei phlannu yn enw pob person a enwir ar y Senotaff, a chaiff cofnod ei greu ar-lein ar eu cyfer y gellir ei gyrchu drwy gôd QR, sy'n amlinellu manylion eu bywydau a'u teuluoedd i sicrhau nad yw eu henwau a'u haberth yn cael eu colli i hanes".*

Cyn y cyfarfod, cyflwynodd y Grŵp Llafur Gynnig diwygiedig, a dderbyniwyd gan y cynigwyr gwreiddiol. Y cynnig isod oedd y cynnig gwreiddiol.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd C M J Evans ac eiliwyd gan y Cynghorydd W G Lewis.

*"Rydym yn galw am adroddiad i'r Cabinet a allai amlinellu'r opsiynau ar gyfer darparu a chynnal coetir coffa, i nodi canmlwyddiant y senotaff a'r aberth a wnaed gan bobl o bob cymuned sy'n gwasanaethu yn ein lluoedd arfog wrth wasanaethu ein gwlad.*

*Bydd yr opsiynau'n ystyried sefyllfa'r gyllideb, strategaeth plannu coed bresennol y cyngor a'r gwaith cyfredol i fapio rhannau o dir y cyngor i gynyddu gorchudd coed ymhellach fel rhan o'i strategaeth sero net. Dylai'r adolygiad ystyried yr opsiynau i blannu coeden yn enw pob person, a chreu cofnod ar-lein y gellir ei gyrchu drwy gôd QR, sy'n amlinellu manylion bywydau a theuluoedd y bobl hyn i sicrhau nad yw eu henwau a'u haberth yn cael eu colli i hanes".*

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig diwygiedig a amlinellir uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.37 pm

**Cadeirydd**